

## Chwilio

Gallwch ddefnyddio'r blychau testun neu'r map, neu gyfuniad o'r rhain, i chwilio *Archwilio*. Fe fydd angen ichi roi tic yn y blwch i ddangos eich bod yn derbyn yr amodau a'r telerau defnyddio cyn y bydd unrhyw ganlyniadau'n cael eu rhestru.

Nid oes yn rhaid ichi nodi unrhyw beth yn y prif flwch chwilio (y chwiliad geiriau allweddol), a gallwch ddefnyddio opsiynau chwilio cyfnod a/neu gymuned (cwymplen) yn unig os yw'n well gennych.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r map ar ei ben ei hun i chwilio. Chwyddwch ardal o'ch dewis, ticiwch y blwch a chlicio ar 'chwilio' i restru'r holl ganlyniadau sydd ar gael.


Ar gyfer chwiliad mwy coeth, defnyddiwch gyfuniadau o'r chwiliad geiriau allweddol, yr opsiynau chwilio a'r map.

I ddechrau chwiliad newydd, cliciwch ar 'Clirio Chwiliad'.

**!** Y nifer uchaf o ganlyniadau sy'n cael eu rhestru ar gyfer unrhyw chwiliad yw 100.

### ***Chwiliad Geiriau Allweddol Sylfaenol***

Nodwch un neu fwy o eiriau allweddol yn y blwch chwilio a chlicio ar *Chwilio* i restru'r canlyniadau, er enghraifft:

Gall gair allweddol fod yn unrhyw beth yr hoffech chwilio amdano, fel gair neu ymadrodd sy'n ymwneud â safle archaeolegol, Prif Gyfeirnod (PRN) y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (os ydych yn ei wybod) neu god post. Nid yw chwiliad geiriau allweddol yn sensitif i lythrennau bach/mawr.


Er enghraifft, mae *forge* yn cyfateb cofnodion sy'n cynnwys *forge* **neu** *forges* **neu** unrhyw air sy'n cynnwys *forge*.

I chwilio am union gyfatebiad rhwng y geiriau allweddol mewn dyfynodau, er enghraifft "Roman Road". Bydd hyn yn rhestru canlyniadau lle mae'r geiriau "Roman Road" i'w cael yn yr union drefn honno.

Nodwch god post i restru canlyniadau o fewn ardal y cod post hwnnw. Rhaid rhoi gofod rhwng hanner cyntaf ac ail hanner y cod wrth nodi cod post e.e. SA1 6EL. Ni fydd unrhyw ganlyniadau'n cael eu rhestru ar gyfer SA16EL.

I chwilio am gofnod unigol, nodwch *Brif Gyfeirnod (PRN)* y cofnod hwnnw yn y blwch chwilio geiriau allweddol.

! Efallai y byddwch yn cael neges yn dweud:



Os bydd hyn yn digwydd fe fydd angen ichi glicio 'OK' a choethi'ch chwiliad, fel yr esbonnir isod.

### ***Chwiliad Geiriau Allweddol Coeth***

Gallwch ddefnyddio dyfynodau " ", yr arwydd plws + neu'r arwydd minws - i goethi'ch chwiliad, fel yr esbonnir yn yr enghreifftiau isod:

#### Chwiliad Geiriau Allweddol Lluosog

*forge smithy foundry*

yn cyfateb cofnodion sy'n cynnwys *forge* **neu** *smithy* **neu** *foundry* unrhyw le yn y cofnod.

#### Chwiliad Geiriau Allweddol Lluosog Penodedig

*forge smithy +roman*

yn cyfateb cofnodion a allai gynnwys *forge* **neu** *smithy* ond y mae'n rhaid iddyn nhw gynnwys *Roman*, h.y. chwiliad am *forges* neu *smithies* Rhufeinig.

#### Chwiliad Geiriau Allweddol Lluosog Penodedig

*forge smithy -roman*

yn cyfateb cofnodion â *forge* **neu** *smithy* **ac nid** *Roman*, h.y. chwiliad am *forges* a *smithies* o gyfnodau nad ydyn nhw'n Rhufeinig.

#### Chwiliad Geiriau Allweddol Union Gyfatebiad

*forge "roman road"*

yn cyfateb cofnodion â *forge* **neu'r** ymadrodd "*Roman road*".

#### Chwiliad Geiriau Allweddol Penodedig Union Gyfatebiad

*+barrow "+beacon ring"*

yn cyfateb cofnodion y mae'n rhaid iddyn nhw gynnwys *barrow* a "*beacon ring*"; mae'r + y tu mewn i'r dyfynodau'n berthnasol i'r ymadrodd cyfan sydd wedi'i ddyfynnu.

Gellir coethi mwy fyth ar chwiliad Geiriau Allweddol trwy ei gyfuno â'r opsiynau isod:

Searching Options

Period  ▼

Community  ▼

Search only within the map view  ?

### ***Opsiynau Chwilio***

Gellir defnyddio opsiynau chwilio ar eu pennau eu hunain, gyda'i gilydd neu wedi'u cyfuno â chwiliad Geiriau Allweddol.

#### Cyfnod

Mae'r ddewislen Cyfnod yn rhoi rhestr o raniadau cyfnodau cronolegol a ddefnyddir yng Nghymru ar hyn o bryd at ddibenion cofnodi gweddillion archaeolegol a hanesyddol. Gwelwch y dudalen *Themâu* i gael mwy o wybodaeth.

Period  ▼

Defnyddiwch y gwymplen i ddewis opsiwn i restru cofnodion sy'n ymwneud â chyfnod penodol. Bydd dewis *Any* yn troi'r opsiwn chwilio hwn i ffwrdd.

#### Cymuned

Mae'r ddewislen Cymuned yn rhoi rhestr o Gynghorau Cymuned (ardaloedd gweinyddol daearyddol) a adnabyddir fel 'Cymunedau' yn yr ardal Ymddiriedolaeth Archaeolegol benodol.

Community  ▼

Defnyddiwch y gwymplen i ddewis opsiwn i restru cofnodion sydd o fewn ardal Cyngor Cymuned benodol. Bydd dewis *Any* yn troi'r opsiwn chwilio hwn i ffwrdd.

#### Ardal ar y Map


Mae'r opsiwn hwn yn cyfyngu'r chwiliad i'r ardal sydd wedi'i dewis ar y map ar y pryd, a gellir ei ddefnyddio ar y cyd ag opsiynau Chwilio eraill a/neu'r chwiliad Geiriau Allweddol.

Search only within the map view  ?

Gwelwch yr adran 'Chwilio â'r Map' isod.

### Chwiliad Geiriau Allweddol a'r Opsiwn Chwilio

Bydd nodi'r termau *forge smithy* yn y chwiliad geiriau allweddol a defnyddio'r opsiwn chwilio i ddewis *Medieval* dan 'Cyfnod' a *Caersws* dan 'Cymuned' yn cyfateb yr holl gofnodion â *forge neu smithy* yn codi yn y testun sy'n dyddio o'r cyfnod Canoloesol **ac** sydd yn ardal cyngor cymuned Caersws.



Search For  
forge smithy ?

Searching Options


Period Medieval ▾

Community Caersws ▾

Search only within the map view  ?

### **Chwilio â'r Map**

I chwilio o fewn ardal sydd wedi'i dewis ar y map yn unig, nid oes yn rhaid defnyddio unrhyw ddulliau chwilio eraill. Chwyddwch mewn i ddewis yr ardal ar y map rydych am ei chwilio a thicio'r blwch 'Chwilio o fewn yr ardal ar y map yn unig' i gyfyngu'ch chwiliad i'r ardal hon yn unig.



Search only within the map view  ?

Gallwch hefyd gyfuno'r chwiliad Geiriau Allweddol a/neu Opsiynau Chwilio eraill ag ardal sydd wedi'i dewis ar y map i goethi'r canlyniadau sy'n cael eu rhestru.

**!** Ni fydd cysylltiad rhwng pob cofnod a lleoliad daearyddol. Mae hyn yn golygu na fyddan nhw'n ymddangos ar y map ac felly byddan nhw'n cael eu rhestru yn ystod chwiliad â thestun yn unig. Efallai fod lleoliad cofnod yn gyfrinachol neu'n anhysbys.

Bydd **!** yn nodi cofnodion yn y tabl canlyniadau sydd heb leoliad daearyddol.

### Chwyddo a Phanio

Gallwch ddefnyddio'r eiconau *chwyddo mewn* a *chwyddo allan* ar ochr chwith y map i chwyddo ar gyfradd sydd wedi'i rhagosod i raddfa benodol.

I gael mwy o reolaeth dros yr ardal rydych am ei chwyddo, cadwch eich bys ar y fysell *CTRL* a defnyddio'r llygoden i lusgo blwch dros yr ardal o'ch dewis. Yna bydd y map yn chwyddo i'r ardal hon.

Gallwch symud (panio) o amgylch y map gan ddefnyddio'r saethau yn y gornel chwith ar y brig, neu glicio a chadw'ch bys ar fotwm chwith y llygoden a llusgo'r map i'r ardal o'ch dewis gan ddefnyddio'r offeryn *llaw*.

Mae'r map o Gymru sydd wedi'i fewnosod yn dangos amlinelliad coch o'r ardal sydd wedi'i dewis ar y map ar y pryd. Gallwch ddefnyddio'r llygoden i lusgo'r blwch hwn i newid yr ardal sydd wedi'i dewis ar y map.




### ***Gweld Canlyniadau Chwiliad***

Pan fyddwch wedi gofyn am y canlyniadau i'ch chwiliad CAH, bydd tabl o'r rhain yn ymddangos o dan ffenestr y map.

Pan ddewisir cofnod yn y tabl canlyniadau, mae'r map yn panio'n awtomatig i leoliad y cofnod hwnnw.

Neu, os ydych wedi defnyddio botwm chwith y llygoden i ddewis 'smotyn' cofnod ar y map, mae'r cofnod perthnasol yn cael ei amlygu yn y tabl isod.

Bydd hofran y llygoden dros 'smotyn' cofnod ar y map yn dangos gwybodaeth sylfaenol am y cofnod hwnnw.

Os bydd y map wedi'i chwyddo neu ei banio ar ôl chwiliad, gellir defnyddio'r eicon  i ddychwelyd y map i'r ardal a'r maint a ddewiswyd ar gyfer y canlyniadau chwilio.

Bydd dwbl-glicio â botwm chwith y llygoden ar 'smotyn' map yn chwyddo'r map i'r nodwedd sydd wedi'i dewis.